

Eitem: 9

Teitl: Perfformiad yn erbyn ein cynllun blynyddol Gorffennaf – Awst 2025

Gweithredu / Action required	Adolygiad
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Bod y Bwrdd yn adolygu ac yn nodi perfformiad yn erbyn ymrwymadau ein cynllun blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2025.
Risg / Risk	Bydd unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'n hanallu i gyflawni, adrodd ar, a chyfleu ein heffaith yn effeithiol yn cael niwed sylweddol i'n henw da yn ogystal â methu â chyflawni ein rhwymedigaethau o fewn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) a'n Dogfen Fframwaith gyda'n tîm Partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru. . Caiff y risgiau hyn eu monitro drwy'r fframweithiau adrodd perfformiad a risg a'u huwchgysfeirio drwy'r ffynonellau sicrwydd priodol. Ar hyn o bryd mae 8 menter/prosiect sydd â risgiau coch i'w cyflawni yn y flwyddyn ariannol hon, a 23 sydd mewn ambr / ar ei hôl hi. Mae rhagor o fanylion am y rhain wedi'u cynnwys yn y papur.
Cyllid / Finance	Dim.

Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Pob amcan o fewn Cynllun Blynyddol 2025-2026
Cydraddoldeb / Equality	Caiiff unrhyw bolisi, newidiadau proses, prosiect neu ddigwyddiadau mawr eu hasesu am eu heffaith ar wahanol gymunedau gan ddefnyddio ein Hasesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddarau.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Ben Eaton
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions	Eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd uwch arweinyddiaeth a'r Bwrdd.
Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting	Rebecca Lythgoe / Ben Eaton
Dyddiad / Date	10 Medi 2025
Cefndir / Background	Nod yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg i'r Bwrdd o berfformiad sefydliadol ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst 2025, gan gynnwys data perfformiad a chanlyniadau ar gyfer y cyfnod hwnnw. Trosolwg Mae'r cyfnod hwn wedi'i ddiffinio gan weithgarwch ymgysylltu helaeth, gyda ffocws bwriadol ar welededd a chyrhaeddiad yn ystod misoedd yr haf, pan fydd pobl allan ac yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol a sgysiau cymunedol. Mae lansio ein

prosiect Cymru gyfan, *Y gofal iechyd a chymdeithasol a garem*, wedi bod yn ganolog i'r ymdrech hon.

Mae miloedd o bobl wedi ymgysylltu â ni drwy arolygon, cyfweiliadau a sesiynau wyneb yn wyneb, gan ein helpu i adeiladu sylfaen dystiolaeth gyfoethog ac amrywiol. Nid gwrando yn unig yw'r ymgysylltiad blaenllaw hwn, dyma'r sylfaen ar gyfer ein cynrychioliadau yn y dyfodol. Bydd yr hyn a glywn nawr yn llunio sut rydym yn siarad dros bobl a chymunedau yn y misoedd nesaf.

Er bod y cyfnod hwn wedi blaenoriaethu ymgysylltu, rydym yn cydnabod yr angen i gryfhau sut rydym yn dangos effaith. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu ein safonau a'n fframweithiau ar gyfer cynrychioliadau, gyda'r nod o wella cysondeb, eglurder a thystiolaeth o ddylanwad. Rydym hefyd yn gwybod bod angen gwneud mwy i gefnogi pobl, yn fewnol ac yn allanol, i ddeall a defnyddio ein pwerau cynrychioli yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn cyflawni newid ystyrlon i gymunedau – rhywbeth yr ydym yn bwriadu canolbwyntio arno yn ystod chwarter 3.

Manylion / Detail

Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol o fewn y Cynllun Blynyddol.

	Statws
0. Ein gwaith bob dydd	
1. Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	
2. Gwthio am Wasanaethau sy'n Diwallu Anghenion Pobl	
3. Cydweithio'n Well	
4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw	
5. Tyfu a gwella fel sefydliad.	

Cyflawni yn erbyn blaenoriaethau

Mae 4 allan o 5 blaenoriaeth strategol yn parhau ar y trywydd iawn, gyda Blaenoriaeth 5 wedi'i graddio'n ambr ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu oedi wrth ddechrau sawl menter datblygu, yn enwedig mewn meysydd sy'n sail i'n seilwaith sefydliadol a'n gallu yn y dyfodol.

Mae'r oediadau wedi'u hachosi gan bwysau mewnol, gan gynnwys swyddi gwag mewn rolau allweddol a gofynion cystadleuol ar draws y sefydliad. Mae'r rhain wedi effeithio ar gyflymder y ddarpariaeth mewn meysydd fel:

- **Adolygiad o'n prosesau recriwtio ac ymsefydlu**, sy'n hanfodol i adeiladu gweithlu gwydn a chefnogol
- **Datblygu ein cynnig dysgu a datblygu a'n matrices sgiliau**, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod gan staff y galluoedd sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgeisiau strategol
- **Gweithredu ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth diwygiedig**, sy'n sail i ddefnydd diogel ac effeithiol o ddata
- **Cyflwyno ein strategaeth ddigidol**, gan gynnwys gwelliannau i seilwaith, systemau ac offer sy'n cefnogi gweithio'n ddoethach.

Mae'r meysydd hyn yn cael eu trin yn weithredol nawr. Mae recriwtio i rolau hanfodol wedi'i gwblhau, ac mae cynlluniau cyflawni diwygiedig ar waith i gefnogi adferiad a sicrhau bod momentwm yn cael ei adennill.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi trafod yr holl brosiectau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd fel rhai 'mewn perygl' neu ar ei hôl hi. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol ag arweinwyr prosiect i ddeall achosion sylfaenol yr oedi, asesu'r effaith, a chytuno ar gamau unioni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ailbroffilio amserlenni i adlewyrchu ffenestri cyflawni realistig
- Cryfhau mecanweithiau goruchwyllo ac adrodd
- Blaenoriaethu dyrannu adnoddau i weithgareddau blaenoriaeth.

Ar y cam hwn, ni ddisgwylir i unrhyw un o'r prosiectau sydd wedi'u gohirio parhau i fod yn anghyflawn erbyn mis Ebrill 2026. Mae'r sgôr ambr yn adlewyrchu gostyngiad dros dro yng nghyflymder y ddarpariaeth, nid risg i'r cyflawniad cyffredinol. Bydd monitro a chefnogaeth barhaus yn sicrhau bod yr adferiad yn parhau ar y

trywydd iawn a bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i gyflawni pob un o'r 5 blaenoriaeth.

Prif gyflawniadau: Gorffennaf-Awst 2025

Mae dros 3,790 o bobl wedi ymgysylltu â ni dros fis Gorffennaf ac Awst 2025.

Rydym wedi:

- Cymryd rhan mewn 77 o weithgareddau ymgysylltu
- Cynnal 21 o ymweliadau ymgysylltu ar y safle
- Gwneud 62 o gynrychioliadau
- Ymateb i 17 o ymgynghoriadau neu alwadau am dystiolaeth
- Bod yn rhan o 26 o newidiadau i wasanaethau
- Ar gyfartaledd, gweithiodd gyda thua 52 o bartneriaid y mis
- Cefnogi pobl i frwr ymlaen â dros 1,115 o bryderon drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

Trosolwg o fis Gorffennaf ac Awst 2025

Rhanbarth:	Gweithgareddau ymgysylltu	Ymweliadau	Cynrychioliadau	Ymgynghoriad agored	Achosion eiriolaeth Agored Gyfartalog	Nifer wedi ymgysylltu â
Caerdydd a'r Fro	11	7	3	0	117	258
Cwm Taf Morgannwg	10	0	4	0	74	181
Gwent	19	6	18	0	208	409
Powys	11	2	8	10	97	428

CNPT ac Abertawe	8	3	0	0	176	135
Gogledd Cymru	30	3	13	0	233	1304
Gorllewin Cymru	10	0	16	7	204	574
Cenedlaet hol	16	Dim yn berthna sol	-	1	Dim yn berthna sol	508
CYFANS WM	107	21	62	17		3,797

Dyma themâu'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn ystod y cyfnod hwn:

Beth sy'n gweithio'n dda?

Canmolwyd gwasanaethau dydd yng Nghaerdydd a'r Fro am eu staff tosturiol a'r gefnogaeth y mae pobl yn ei derbyn wrth fynychu, gan ddisgrifio un fel amgylchedd diogel a chefnogol i oedolion hŷn er enghraifft.

Mae rhai meddygfeydd teulu yn cynnig apwyntiadau ar yr un diwrnod yn gyson ac mae pobl wedi sôn am ganmoliaeth am ofal a dealltwriaeth sy'n canolbwyntio ar y person. Mae meddygfeydd teulu wedi cael eu disgrifio fel rhai 'rhagorol' ac 'mae'n dda gweld yr un meddyg'.

Ar draws sawl rhanbarth, nododd cleifion mewn lleoliadau iechyd meddwl eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu bod yn rhan ac yn cael eu cefnogi. Cafodd therapyddion galwedigaethol ganmoliaeth gyson am eu gwaith tosturiol ac effeithiol, yn enwedig mewn wardiau oedolion aciwt. Disgrifiodd cleifion Therapyddion Galwedigaethol fel rhai sy'n 'gwneud gwaith anhygoel' a phwysleisio gwerth gweithgareddau therapiwtig, urddas mewn gofal, a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Angen gwella

Thema	Materion allweddol a mewnwleidiadau
Gwasanaethau Iechyd Meddwl.	Amseroedd aros hir am asesiadau niwroamrywiaeth.
	Teimladau o gael eu diystyru a heb gael gwrandawriad staff, gyda rhai pobl eisiau i staff gael hyfforddiant pell.
	Diffyg parhad gofal a gofal dilynol mewn gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol.
Mynediad at wasanaethau	Amseroedd aros hir am wasanaethau arbenigol gan gynnwys niwroleg, cataractau ac orthodonteg.
	Anhawster cael apwyntiadau meddyg teulu ar gyfer apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau arferol.
	Allgáu digidol i bobl nad oes ganddynt ffonau symudol mynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.
Gofal Cymdeithasol	Diffyg cefnogaeth wedi'i theilwra a rhagdybiaethau yng gallu aelodau'r teulu i ddarparu gofal.
	Rhestrau aros hir a mynediad gwael at weithwyr cymdeithasol synhwyrdd.
	Cyfathrebu gwael, yn enwedig o ran seibiant a hawliau gofalwyr.
Gwasanaethau Deintyddol	Arosiadau cofrestru hir a diffyg argaeledd lleol.
	Pryderon ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaeth deintyddol y GIG yng Nghymru, a'r ffaith y bydd mynediad lleihau ymhellach.
Achosion Eiriolaeth Cwynion (Meintiol)	Cyfanswm yr achosion agored: 2,230 Mae themâu'n ymwneud â: - ymarfer clinigol - cyfathrebu - gweithdrefnau.

Cynrychioliadau

Drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a'n hymdrechion ymgysylltu, rydym wedi gwneud dros 50 o gynrychioliadau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn.

Crynodeb o'r themâu, y materion a'r camau gweithredu / cynrychioliadau yw:

Thema	Materion allweddol
Diogelwch cleifion ar ward iechyd meddwl	Cododd problemau cynhwysedd bryderon diogelwch.
Rhyddhau o'r ysbyty	Cleifion yn cael eu rhyddhau i gartrefi gofal yn hwyr y nos
Mynediad at feddyginiaeth wedi'i rhagnodi	Pryderon ynghylch y gallu i gael mynediad at feddyginiaeth ar bresgripsiwn oherwydd problemau stoc, cyfathrebu neu oedi wrth brosesu.
Gwasanaethau plant.	Newidiadau i ddyluniad y system a bylchau mewn adnoddau
Amseroedd aros	Oediadau diagnostig sy'n fwy nag 8 wythnos a gofal wedi'i gynllunio dros 12 mis.

Engbreiffiau o ganlyniadau ac effaith

Gwnaethom gynrychioliadau Cymru Gyfan ar ymwybyddiaeth o sepsis yn dilyn profiad trasig un o'n gwirfoddolwyr Gwent, y bu farw ei mab Dylan: ([Ysbyty yn ymddiheuro ar ôl i blentyn naw oed farw ar ôl cael ei ryddhau | Wales Online](#)).

Mewn dull cydlynol, gwnaeth pob un o'n Cyfarwyddwyr Rhanbarthol gynrychiolaeth i'w Bwrdd Iechyd ar ymwybyddiaeth a hyfforddiant sepsis a gweithredu canllawiau newydd¹ i nodi a gweithredu'n gynnar i ymateb i'r dirywiad yng nghyflyrau pobl.

Mae pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'n sylwadau, gan amlinellu'r camau y maent wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd:

Ymwybyddiaeth gyhoeddus: drwy ymgyrchoedd gan gynnwys poster, taflenni, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau, rhai'n cyrraedd degau o filoedd o bobl ac ar gael mewn sawl iaith.

Hyfforddiant staff: hyfforddiant drwy fodiwlau ar-lein, sesiynau wyneb yn wyneb, a rhaglenni sefydlu.

Gweithredu Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol 2: Mae hwn yn offeryn newydd i helpu staff i adnabod cleifion sy'n dirywio. Mae'n cael ei gyflwyno ledled Cymru rhwng Gorffennaf a Medi 2025. Mae offer ychwanegol ar gyfer plant, mamolaeth a babanod newydd-anedig hefyd yn cael eu cyflwyno.

Mae pob Bwrdd Iechyd wedi teilwra ei ddull yn seiliedig ar anghenion lleol, gydag ardaloedd gwledig fel Powys yn canolbwyntio ar gefnogi pobl a chymunedau i ddeall sepsis a'r rôl y dylai gofal cymunedol ei chwarae.

Bydd Llais yn:

- Rhannu'r adroddiad hwn gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru.
- Dilyn datblygiadau wrth gyflwyno NEWS2 a hyfforddiant cysylltiedig.
- Parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltiad cymunedol ynghylch sepsis.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i rannu arfer da.

Mae Llais yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod stori Dylan yn arwain at newid parhaol yn y ffordd y mae sepsis yn cael ei gydnabod a'i drin ledled Cymru.

¹ [Amserlenni a chyfrifoldebau ar gyfer Sgorau Rhybudd Cynnar \(EWS\) \(WHC/2025/002\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Gofal urddasol, uned iechyd meddwl

Yn ystod ymweliad Llais ag uned iechyd meddwl yn Ysbyty Glan Clwyd, rhannodd claf bryder ynghylch y diffyg biniau misglwyf yn y toiledau. Dywedodd ei bod hi'n embaras rhoi cynhyrchion misglwyf ail-law i staff a'i bod hi wedi codi'r mater o'r blaen, ond nad oedd dim wedi newid.

Cododd Llais y mater hwn, ac eglurwyd bod y biniau wedi cael eu symud ar ôl digwyddiad diogelwch difrifol. Oherwydd hyn, cafodd y biniau eu tynnu i ffwrdd tra bod opsiynau mwy diogel yn cael eu hystyried.

Ar ôl i ymweliad Llais ddod â sylw newydd i'r mater, adolygodd y ward y sefyllfa a gosod biniau glanweithiol arbenigol sy'n ddiogel ac yn hylan. Mae'r biniau hyn yn amddiffyn urddas cleifion wrth gadw pawb yn ddiogel.

Mae hyn yn dangos yr effaith ymarferol y gall Llais ei chael:

- Gwrandawyd ar bobl a gweithredwyd ar eu pryderon.
- Datryswyd problem hirhoedlog trwy sgwrs agored.
- Rhoddwyd ateb mwy diogel a pharchus ar waith.
- Helpodd ymweliad Llais i wneud newid cadarnhaol, gan ddangos pa mor bwysig yw gwrandao ar bobl a'u cynnwys yn y broses o wella gofal.

Egluro amddiffyniadau cleifion mewn gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n gysylltiedig â chyllid adfer rhestrau aros

Ar ôl codi pryderon yn flaenorol ynghylch amddiffyniadau cleifion mewn gwasanaethau a gomisiynwyd gan y GIG gan ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, gofynnwyd am eglurder ar amddiffyniadau cleifion fel rhan o'n trafodaethau dilynol ynghylch sut roedd y cyllid o £120 miliwn i leihau rhestrau aros yn cael ei ddefnyddio.

Mewn ymateb, cadarnhaodd GIG Cymru:

- Mae trin cwynion a digwyddiadau gan ddarparwyr annibynnol a gomisiynwyd ar gyfer y rhaglen hon yn dilyn prosesau'r GIG, gan sicrhau cysondeb i gleifion.
- Mae mesurau diogelwch cytundebol ar waith: Cafodd cydymffurfiaeth â gofynion *Gweithio i Wella* a gwneud iawn eu hymgorffori ym manyleb y tendr, gan eu gwneud yn rhwymol o dan y contract.
- Rhaid i ddarparwyr ddal indemniad o £10 miliwn fesul claf, fel amod i gael eu comisiynu. Fodd bynnag, y darparwr a'r clinigwr sy'n gyfrifol, nid y Bwrdd Iechyd.
- Mae sianeli adborth ychwanegol (e.e. codau QR) yn caniatáu i gleifion rannu mewnwelediadau y tu hwnt i gwynion ffurfiol er mwyn caniatáu adolygiad ac addasiad mewn amser real.

Mae hyn yn rhoi sicrwydd i gleifion bod gwasanaethau a gomisiynir ar sail Cymru gyfan i leihau rhestrau aros yn cynnal safonau ac amddiffyniadau'r GIG, a bydd yn helpu ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion i gefnogi pobl a allai fod angen codi cwyn gyda'r gwasanaethau hyn.

Uchafbwyntiau a chanlyniadau ymgysylltu:

- **Y gofal iechyd a chymdeithasol a garem:** Lansiodd ein prosiect Cymru gyfan ym mis Gorffennaf 2025 ac rydym wedi ymgysylltu â bron i 750 o bobl ers hynny trwy amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu. Rydym wedi datblygu pecynnau cymorth rhanddeiliaid ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl ledled Cymru. Mae gan ein harolwg dros 300 o ymatebion ac rydym wedi derbyn llawer o ddiddordeb mewn cyfweiliadau 1:1 sy'n rhoi'r cyfle i drafod materion a phrofiadau ymhellach.

Mae nifer o sesiynau ar-lein wedi'u hanelu at sefydliadau a grwpiau i rannu gwybodaeth am y prosiect a sut i gymryd rhan yn ogystal â chasglu rhai safbwyntiau. Mae ymgysylltu wyneb yn

wyneb wedi digwydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru ochr yn ochr â gweithgareddau rhanbarthol.

- **Digwyddiadau rhanbarthol:** gyda chefnogaeth gan y tîm cenedlaethol rydym wedi dechrau archwilio rhai dulliau creadigol a gwahanol o ymgysylltu. Ar stondinau mewn digwyddiadau rydym wedi defnyddio swigod siarad gydag awgrymiadau i gasglu syniadau ac adborth er enghraifft. Wrth gynllunio fforwm cyhoeddus rydym yn dechrau gydag awr dawel i bobl gwblhau arolygon cyn cychwyn sesiwn gyda nifer o weithgareddau cyfranogol ar gael ochr yn ochr â sgysiau gyda staff a gwirfoddolwyr Llais.
- **Digwyddiadau cenedlaethol:** Fe wnaethon ni gynnal stondinau a digwyddiadau yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd y stondinau lawer o ymwelwyr a bu llawer yn sgwrsio a/neu'n cwblhau cardiau post. Fe wnaethon ni hefyd gynnal digwyddiad bwrdd crwn am iechyd a gofal cymdeithasol gwledig yn Sioe Frenhinol Cymru. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol fe wnaethon ni gyflwyno trafodaeth banel ochr yn ochr â'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth.

Dangosfyrddau Rheoli Gwybodaeth

Rydym yn parhau i wella sut rydym yn cyflwyno ac yn deall ein data perfformiad. Mae nifer o ddangosfyrddau bellach ar waith neu'n cael eu cwblhau, gan ein helpu i olrhain gweithgaredd ac effaith yn well ar draws meysydd fel eiriolaeth cwynion, ymgysylltu, cyllid a risg. Mae detholiad o'r dangosfyrddau sefydledig wedi'u hatodi er gwybodaeth.

Diweddariad:

- Mae dangosfwrdd eiriolaeth cwynion bellach yn gwahanu data ar gyfer gwahanol rolau, gan ei gwneud hi'n haws deall sut mae Eiriolwyr a Swyddogion Cymorth Eiriolaeth yn gweithio.
- Bydd y dangosfwrdd ymgysylltu yn cael ei ddatblygu ymhellach unwaith y bydd ein system Rheoli Perthynas Cwsmeriaid wedi'i

diweddar. Bydd hyn yn ein galluogi i gofnodi themâu'n well a dangos pa bartneriaid rydym wedi gweithio gyda nhw dros amser.

- Mae dangosfyrddau ar gyfer cynrychioliadau a newidiadau i wasanaethau wedi'u hatal nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn ein System Rheoli Perthynas Cwsmeriaid, a fydd yn caniatáu inni adrodd yn gliriach ar y meysydd hyn.
- Rydym wedi gwneud cynnydd da ar y dangosfwrdd risg, gyda delweddau newydd yn dangos sut mae risgiau'n newid dros amser a sut maent yn ymwneud â'n dangosyddion perfformiad allweddol.
- Mae dangosfwrdd cyllid newydd wedi'i adeiladu ac mae'n cael ei wirio am gywirdeb cyn iddo fynd yn fyw.
- Rydym hefyd yn archwilio ffordd newydd o gysylltu'n uniongyrchol â systemau'r GIG, a allai ganiatáu inni gael data cyllid ac AD yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy. Byddai hyn yn arbed amser ac yn gwella sut rydym yn adrodd.

Mae canllawiau'n cael eu datblygu i helpu staff i ddefnyddio'r dangosfyrddau'n hyderus, ac mae dangosfwrdd Effaith Llais newydd yn cael ei greu i ddod â data o bob rhan o'r sefydliad ynghyd.

Mae rhywfaint o'r gwaith hwn yn dibynnu ar argaeledd staff a datblygiadau technegol, ac rydym yn cadw llygad ar unrhyw risgiau i'r ddarpariaeth. Rydym hefyd yn ystyried a ddylid datblygu dangosfyrddau ar gyfer cynulleidfaoedd allanol yn y dyfodol.

Casgliad

Rydym wedi gweld cynnydd da dros fis Gorffennaf ac Awst 2025 a'r gallu i gynnig amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu drwy'r prosiect *iechyd a gofal cymdeithasol a garem*. Byddwn yn parhau i fyfyrto ar yr hyn y mae hyn yn ei olygu i ddulliau ar draws ein harfer ymgysylltu.

Ar y cyfan, mae'r prosiect hwn wedi bod yn mynd yn dda gyda lefelau da o ymgysylltiad. Mae gwaith i gynhyrchu adroddiad interim ar y gweill, gyda'r adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi yn y chwarter nesaf.



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

Drwy'r prosiect hwn rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd â rhanddeiliaid a byddwn yn ystyried sut rydym yn cadw mewn cysylltiad ac yn cadw pobl i ymgysylltu ar ôl i'r prosiect adrodd.

Byddwn yn comisiynu ymchwil i sawl maes allweddol wrth i ni fynd i mewn i'r hydref a fydd yn ein galluogi i adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu a nodi gwaith pellach. Bydd hyn yn cynnwys deall sut mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gwneud gwahaniaeth i bobl, arfer da mewn gofal cymdeithasol, gofal cymunedol integredig a grwpiau cyfranogiad cleifion.